# OWEN, JOHN (1833 - 1896), clerigwr a llenor

**Enw:** John Owen
**Dyddiad geni:** 1833
**Dyddiad marw:** 1896
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr a llenor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd ym Mhenfro yn 1833. Addysgwyd ef yng Ngholeg Dewi Sant, ac yn y blynyddoedd 1858-9 bu'n gynorthwywr i Rowland Williams yn y dosbarthiadau Hebraeg yno. Bu'n gurad yn Alvedistone (Wilts), 1859-60, a Bowerchalke (Wilts), 1860-9; ond yn 1869 penodwyd ef yn rheithor East Anstey, Dulverton (Dyfneint), ac yno y bu weddill ei oes. Yn y neilltuedd hwn, darllenodd yn helaeth, a chasglodd lyfrgell odidog. Ymddiddorai'n bennaf mewn rhyddymofyniad, a alwai ef yn 'skepticism,' a chyhoeddodd res o lyfrau. Dug allan yn 1885 argraffiad o *Scepsis Scientifica* Glanvill. Cyhoeddodd yn 1881 *Evenings with the Skeptics*, yn 1892 *The Skeptics of the Italian Renaissance*, yn 1893 *The Skeptics of the French Renaissance*, ac yn 1896 *The Five Great Skeptical Dramas of History*, a sgrifennai'n fynych i'r *Edinburgh Review* a'r *Academy*. Bu farw yn East Anstey 6 Chwefror 1896.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


*Crockford's Clerical Directory*

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1896, 291

*The Academy A Monthly Record of Literature, Learning, Science and Art* (1869-1916), 15 Chwefror 1896


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 17139849

Wikidata: Q20733590


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu